**WHC (2018) 026**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi:** Gorffennaf 16 2018

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**STATWS: GWEITHREDU / GWYBODAETH**

**CATEGORI: PERFFORMIAD / CYFLENWI**

**Teitl:** Cam 2 – mesurau ansawdd a chyflenwi ar gyfer gofal sylfaenol

**Dyddiad dod i ben / Adolygu:** Parhaus

**I'w weithredu gan:**
Yr holl fyrddau iechyd

**Angen gweithredu erbyn:** parhaus
Gweler paragraff 5

**Anfonwyd gan:** Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Llywodraeth Cymru

**Enw(au) Cyswllt Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru:**
**Cathy White** - Pennaeth Ardaloedd a Chymunedau,
Yr Is-adran Gofal Sylfaenol, Cyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol ac Arloesi
*Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Ffôn: 03000256108*

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

1. Yn 2014, fel rhan o ddogfen Llywodraeth Cymru 'Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018', gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r cyfarwyddwyr gofal sylfaenol, gofal cymunedol, a gofal iechyd meddwl yn y byrddau iechyd ddatblygu set genedlaethol o ofynion a mesurau ansawdd a chyflenwi ar gyfer gofal sylfaenol. Cafodd mesurau Cam 1 eu cytuno ym mis Rhagfyr 2014. Roedd y mesurau yn ymwneud â chwe maes fframwaith canlyniadau'r GIG a chwe thema safonau iechyd a gofal Cymru. Ar hyn o bryd, gall y byrddau iechyd fynd at ddata Cam 1 drwy Borthol Gwybodaeth Gofal Sylfaenol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

2. Mae cyfarwyddwyr gofal sylfaenol a gofal cymunedol y byrddau iechyd wedi cytuno ar ail set o fesurau ansawdd a chyflenwi ar gyfer gofal sylfaenol i'w defnyddio ar lefel bwrdd iechyd a chlwstwr. Mae'r set hon o fesurau yn canolbwyntio mwy ar sicrhau canlyniadau i'r boblogaeth. Defnyddir y mesurau i fonitro cynnydd wrth weithio i wella gofal sylfaenol.

3. At ddibenion gweithredu, rhennir yr ail set yn Gam 2A a Cham 2B. Mae'n haws cael y data y mae eu hangen ar gyfer mesurau Cam 2A, ac felly gellir mynd ati i weithredu a defnyddio'r rhain ar unwaith. Mae'r mesurau hyn bellach yn fyw ar y Porthol Gwybodaeth ar gyfer Gofal Sylfaenol, a gellir mynd atynt drwy ddewis y mesurau gofal sylfaenol ar y brif ddewislen.

4. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi datblygu porthol cenedlaethol i fyrddau iechyd i'w helpu i adrodd ar y mesurau. Mae'n caniatáu i'r sawl sy'n adrodd doglo rhwng tudalennau a gweithio eu ffordd i lawr i lefel bwrdd iechyd a chlwstwr. Dyma ddolen at y porthol: http://gig01srvisdlogi/pcip/rdPage.aspxrdReport=PrimaryCareIndicators.Readme&rdRnd=46590

5. O'r flwyddyn ariannol hon (2018-19) ymlaen, dylai'r byrddau iechyd, drwy eu clystyrau, ddefnyddio eu perfformiad yn erbyn y mesurau hyn fel sail i'w helpu gyda'u holl gynlluniau ar gyfer mabwysiadu ac addasu'r model trawsnewid ar gyfer gofal sylfaenol a gofal cymunedol, a monitro effaith y cynlluniau hyn ar iechyd a llesiant poblogaeth y clwstwr. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r mesurau hyn fel sail i drafod graddfa a chyflymder y newidiadau a'r gwelliannau.

6. Yn ogystal â hynny, ac yn unol â'r angen i 'wneud pethau unwaith i Gymru', bydd Cam 2B yn dechrau pan fo tystiolaeth bod y byrddau iechyd yn defnyddio'r mesurau sy'n bodoli eisoes yn rheolaidd.